RHIFYN 26 / GAEAF 09
www.wrecsam.gov.uk

Cyswllt

cylchgrawn cyngor bwrdeistref sirol wrecsam

Feddyliodd chi tybed o ble daw

COEDEN NADOLIG WRECSAM?

Cewch wybod oddi mewn!

CYSWLLT Y PLANT

Ffeithiau a gwybodaeth hwyliog i'n trigolion iau

A hefyd: • Cael gwybod beth sy'n digwydd yn Wrecsam tan y Nadolig
• Cael gwybod sut i ddweud eich dweud ar y Cynllun Datblygu Lleol • Prentisiaid Modern...cyflogwyd chi!

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CROESO.....

Croeso i Cyswllt, cylchgrawn chwarterol Cyngor Wrecsam i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae hi bron yn Nadolig ac mae'r rhifyn hwn yn llawn o newyddion yr ŵyl a digwyddiadau i'ch rhoi yn yr ysbryd.

Gallwch hefyd weld pam fod Wrecsam yn ailgylchu gwastraff bwyd bellach, sut y gallwch ddweud eich dweud ar gynllun datblygu'r sir a chael gwybod mwy am yr Eisteddfod Genedlaethol – sy'n dod i Wrecsam yn 2011!

Mae tudalennau 10 ac 11 ar gyfer ein trigolion iau a gallant ddod i wybod beth fydd ar eu bwydlen ysgol, rhai ffeithiau da ynghylch y Nadolig a sut i wneud cawl llysiau blasus!

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen rhifyn Cyswllt y gaeaf – cofiwch ddweud eich barn wrthym trwy gysylltu â ni:

Ffôn: 01978 292014
E-bost: cyswllt@wrecsam.gov.uk

Cyswllt, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR.

Caiff Cyswllt ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn. Bydd y rhifyn nesaf yn y gwanwyn.

Caiff Cyswllt ei argraffu 100% ar bapur a ailgylchwyd. Cofiwch ailgylchu'r cylchgrawn hwn pan fyddwch wedi gorffen ei ddarllen.

Ydych chi'n ei chael yn anodd darllen print llai? Os hoffech gael copi o Cyswllt ar ffurf fwy, cofiwch ffonio 01978 292014.

NEGES ODDI WRTH ALED ROBERTS – Arweinydd y Cyngor

Mae'r hinsawdd economaidd ddifrifol sydd ohoni wedi effeithio arnom i gyd ac nid yw'r sector cyhoeddus yn eithriad. Bydd angen i ni edrych ar ein holl wasanaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau ein bod yn dal i ddiwallu anghenion ein trigolion tra byddwn yn gwneud yr arbedion angenrheidiol. Fodd bynnag, yn peri'r un pryder mae'r toriadau sydd i ddod mewn gwariant cyfalaf dros y pedair blynedd nesaf, fydd yn arwain at broblemau buddsoddi gwirioneddol, yn arbennig yn ein seilwaith. Mae angen i'r gwleidyddion cenedlaethol ddweud y gwir ynghylch maint y broblem a bydd angen i ni weithio gyda'n partneriaid i ddod drwy'r cyfnod anodd hwn.

Roeddem i gyd yn siomedig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthod cynigion cyfalaf am Borth y Gorllewin a'r Cae Ras ac ni allwn ond gobeithio y byddant yn cadw'u haddewidion i gyllido ffordd gyswllt y Stad Ddiwydiannol.

Byddai'n hawdd bod yn sinigaidd mewn sefyllfa ariannol mor ddifrifol, a bu'n braf clywed rhywfaint o newyddion da. O flaen y cefndir negyddol hwn, cafodd staff Cyngor Wrecsam eu hystyried yn y wasg fel yr awdurdod gorau yng Nghymru am y tro cyntaf. Fe wn ein bod weithiau'n cael pethau o chwith ond dyma ganmol ein staff ac mae'n dangos pa mor bell y daethom dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn enwedig yng ngoleuni'r holl ansicrwydd ynghylch dyfodol y sector cyhoeddus ar hyn o bryd.
Yn olaf, diolch i chi'r trigolion sydd wedi cefnogi ein hymgyrch i ailgylchu mwy yn Wrecsam – rydym yn diolch am eich amynedd gyda'r adolygiad casgliadau ac ychwanegu gwastraff bwyd.

Y Cyng Aled R Roberts

Ymwadiad: Ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynhyrchion neu wasanaethau unrhyw gwmnïau eraill sydd i'w gweld yn y cylchgrawn hwn.

MWY O NEWYDDION DA AM WASTRAFF

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd cryn fuddsoddiad ychwanegol mewn ailgylchu yn Wrecsam, ac mae rhan olaf y prosiect ar waith erbyn hyn.

Mae Cyngor Wrecsam a Grŵp Ailgylchu Gwastraff (WRG) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ac wedi gwneud gwelliant sylweddol, gydag arian oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, i ddwy o ganolfannau ailgylchu'r sir ym Mhlas Madoc a Brymbo. Maent hefyd wedi adeiladu cyfleuster compostio caeedig o'r radd flaenaf (lle caiff gwastraff bwyd, gwastraff gerddi a chardbord eu hailgylchu bellach).

Cyn agor y safleoedd hyn, cyfradd ailgylchu Wrecsam oedd 31% ac roedd yn amlwg bod angen cyfleusterau ychwanegol ar y sir i wella hyn yn sylweddol.

Bydd y cyfleuster compostio yn rhan o bwys o'r gwelliant hwn a theithiodd pobl o bob rhan o Ewrop ar 15 Hydref ar gyfer ei agoriad swyddogol.

Trowch i dudalen 12 i gael gwybod mwy am ailgylchu bwyd yn Wrecsam.

Dadorchuddiwyd y plac swyddogol i nodi'r agoriad gan (o'r chwith i'r dde) Jane Davidson AC, Y Cynghorydd Arwel Gwynn Jones, Y Cynghorydd Aled Roberts a Jim Meredith o WRG.

Cystadleuaeth

Mae siop anifeiliaid anwes o Wrecsam, M&L Pets World, yn rhoi cyfle i chi ennill tocyn anrheg £25 ar gyfer naill ai M&L Pets World yng Ngwersyllt neu Jaydee Aquatics yn Llai.

Yn y busnes ers 1985, Michele a Les Osbourn sy'n rhedeg y siopau anifeiliaid anwes hyn sy'n enwog yn lleol, gan gadw amrywiaeth eang o anifeiliaid anwes, ategolion, bwyd a chutiau a gallwch gael popeth sydd ei angen ar eich anifail anwes – a pharcio AM DDIM.

Mae pob un o'r cynhyrchion a gynigiant ar gael am brisiau cystadleuol iawn. Maent hefyd yn darparu ar gyfer anifeiliaid sydd angen bwyd mwy arbenigol fel hypoalergenig, rhydd o wenith neu glwten, a rheoli pwysau, i gyd am brisiau sydd o fewn cyrraedd pawb!

I ennill taleb £25.00 i'w defnyddio naill ai yn M&L Pets World neu Jaydee Aquatics, Llai, atebwch y cwestiwn canlynol:

Faint o bobl sy'n cael eu denu i gynnau goleuadau Wrecsam fel arfer?

Anfonwch eich ateb gyda'ch enw, cyfeiriad a rhif ffôn i: Cystadleuaeth Cyswllt, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AR neu e-bost cyswllt@wrecsam.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cynnig yw 26 Chwefror 2010.

YMGYNGHORIAD CLUDIANT YSGOL

Mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Gweithredol Cyngor Wrecsam, gofynnodd aelodau etholedig i'r swyddogion gynnal ymgynghoriad trwyadl ynghylch y cynnig i sefydlu Polisi Cludiant Ysgol newydd.

Effaith y polisi newydd fyddai sicrhau bod cludiant di-dâl ar gael i holl ddisgyblion Cynradd sy'n byw mwy na 2 filltir o'u hysgol addas agosaf a holl ddisgyblion Uwchradd sy'n byw mwy na 3 milltir o'u hysgol addas agosaf.

Bydd pawb yn cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad, fydd yn digwydd rhwng 16eg Tachwedd 2009 a 26ain Chwefror 2010. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu a bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor, gyda chyfle i bobl fynegi eu barn.

www.wrecsam.gov.uk

1.O goedwig gyfan, caiff un goeden ei dewis yn arbennig ar gyfer Wrecsam
2. Ar ôl ei dewis, caiff y goeden ei thorri i lawr a'i pharatoi i'w chludo
3. Y goeden yn cychwyn ar ei taith o'r goedwig i Wrecsam
4. Y lle blaenaf i'r goeden ar Sgwâr y Frenhines

Mae llawer o bethau'n ein llenwi â llawenydd y Nadolig – aroglau tartenni Nadolig, clywed carolau ac, wrth gwrs, gweld coeden Nadolig addurnedig.

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn dod â'r goeden Nadolig hollbwysig i Sgwâr y Frenhines ynghanol tref Wrecsam; ac yn mesur 40 troedfedd nid camp fechan mo hon. Ond ydych chi erioed wedi meddwl tybed o ble daw'r goeden anferth hon? Pa goedwig fu'n ei meithrin o lasbren bychan yn gawres goediog? A sut ddaeth hi yno? Darllenwch ymlaen i gael gwybod!

Coedwig Kielder, Northumberland, yw dechrau hanes coeden Nadolig Wrecsam. Mae'r coed yno'n arbennig iawn. Maent yn goed bytholwyrdd o fath Pefrwydd Sitka a chânt eu magu o goed ifanc bach pert gan ddefnyddio canllawiau llym Cymdeithas y Pridd (ymborth iach dros ben, macrofiotig ar gyfer coed). Maent hefyd yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n gwneud iddynt dyfu'n berffaith union – wedi'r cyfan, pwy sydd eisiau coeden gam?

Fel yr eglura Kay Rickard, cydgysylltydd achlysuron Adran Datblygu Economaidd Cyngor Wrecsam: 'Dyma'r bumed flwyddyn i ni gael Pefrwydden Sitka o Goedwig Kielder.

'Y goeden yw canolbwynt cymaint o ddigwyddiadau'r Nadolig yn y dref ac, felly, rhaid i ni sicrhau ei bod o'r siâp a maint iawn, a'i bod yn edrych yn wych wrth gwrs.

'Ar y dechrau aethom i'r goedwig i'w dewis ein hunain. Fodd bynnag, mae'r cwmni cyflenwi – Stad Elveden – yn gwybod erbyn hyn pa fath o goeden i'w hanfon. Felly, rydym yn ymddiried ynddynt i ddewis yr union un ar gyfer Wrecsam.'

Efallai eich bod yn holi pam nad oes modd cael coeden yn lleol. Methodd ymdrechion i gael hyd i un addas yn nes adref yn y gorffennol ac mae'n bwysig bod y goeden yn ddigon mawr a gwydn i bara'r cyfnod (fel arfer saith neu wyth wythnos ar Sgwâr y Frenhines).

Tra nad yw'r rhan fwyaf ohonom yn meddwl am y Nadolig nes bydd y gaeaf ar ein gwarthaf, bydd Kay a'i thîm yn dechrau cynllunio fisoedd ymlaen llaw.

Dywedodd: 'Byddwn yn cysylltu â'r cyflenwyr ym mis Mehefin, a byddant wedyn yn dewis ein coeden ac yn gofalu amdani nes bydd yn barod i'w chwympo a'i danfon – yn gynnar ym mis Tachwedd fel arfer.

'Yna mae pawb wrthi'n cael y goeden yn barod a'i haddurno, ac yn trefnu popeth ar gyfer goleuo'r goleuadau Nadolig sydd, fel arfer, yn denu dros 2,000 o bobl.'

Erbyn i chi ddarllen hwn, mae'n debygol y bydd y goeden eisoes ar ei thraed yn goleuo Sgwâr y Frenhines. Ond, os methoch chi weld goleuo'r goleuadau Nadolig, gallwch ddal i gymryd rhan yn rhai o'r digwyddiadau gwych eraill sy'n cael eu trefnu gan y Cyngor; edrychwch ar y golofn gyferbyn a dechrau cynllunio.

Dywedodd y Cynghorydd Rodney Skelland, Aelod Arweiniol ar Adfywio a Llywodraethu Corfforaethol,: 'Mae'r digwyddiadau ynghanol y dref yn rhoi pleser mawr ac yn rhan fawr o'r cyfnod cyn y Nadolig i bobl a busnesau lleol. Byddwn yn annog pawb i ddod a mwynhau'r awyrgylch hwyliog!'

DIGWYDDIADAU'R NADOLIG YN WRECSAM

AILGYLCHU A RHOI!

Rhaid i'r ailgylchwr mwyaf selog gyfaddef nad car llawn nodwyddau pin ar ôl mynd â'r goeden i'w hailgylchu yw'r ffordd orau o gloi'r ŵyl, felly mae Cyngor Wrecsam a Thŷ'r Eos wedi dod o hyd i'r ateb perffaith.

Am leifafswm rhodd o £5 am bob coeden, bydd Tŷ'r Eos yn casglu eich coeden ac yn mynd â hi i'r Parciau i'w hailgylchu. Caiff coed eu casglu o 6-10 Ionawr a gellir trefnu ymlaen llaw drwy ffonio **01978 314292** a chaiff y gweddillion eu defnyddio yn y parc drwy gydol y gwanwyn. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i drigolion â'r codau post canlynol: LL11 1, LL11 2, LL11 4, LL11 6, LL12 7, LL12 8, LL13 7 a LL13 8.

OGOF SIÔN CORN

Sgwâr y Frenhines
3 Rhagfyr i Noswyl Nadolig
Bydd yr ogof ar agor fel a ganlyn:
Dydd Llun i ddydd Mercher a dydd Gwener **11am-5pm** Dydd Iau **11am-7.30pm**
Dydd Sadwrn **10am-5pm**
Dydd Sul **11am-4pm**
Noswyl Nadolig **11am-3pm**

MARCHNAD NADOLIG FICTORAIDD

Stryt yr Eglwys ac Eglwys San Silyn
10 Rhagfyr
3pm-8pm
Adloniant Fictoraidd a 60 o stondinau'n gwerthu anrhegion, teganau, bwyd, gemwaith, gwaith llaw, cnau castan poeth, addurniadau, coed Nadolig newydd eu torri a llawer iawn mwy.

CAMELOD A CHAROLAU

Sgwâr y Frenhines ac Eglwys San Silyn
17 Rhagfyr
Dechrau am **5.30pm**
Mwynhau ysbryd yr ŵyl gyda cherddoriaeth y Nadolig, tri chamel go iawn a'r doethion yn Sgwâr y Frenhines, a gorymdaith wedyn am 6pm i Eglwys San Silyn lle bydd gwasanaeth carolau.

I gael rhagor o wybodaeth am yr achlysuron uchod, cysylltwch ag Adran Datblygu Economaidd Cyngor Wrecsam ar **01978 292537.**

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Nadolig Llawen ac Ailgylchu Hapus yn 2010!

Hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam atgoffa pob un o'i gwsmeriaid i wirio sticeri eu biniau ar gyfer eu dyddiadau casglu diwygiedig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae'n anochel bod pobl yn creu mwy o sbwriel nag arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Ceisiwch ailgylchu cymaint â phosibl – fe synnwch o weld faint o wahaniaeth mae'n ei wneud.

Dylai'r casgliadau newydd ar gyfer gwastraff cegin a chardbord fod yn gwneud gwahaniaeth eisoes.

BYDDWN YN PARHAU I GASGLU BINIAU OLWYNION GWYRDD A DU (NEU LAS) BOB YN AIL WYTHNOS DRWY GYDOL Y GAEAF

Pride in your Streets
Strydoedd o Fri

☎ 01978 29 89 89

TROLÏAU YN Y LLUN

Wyddech chi fod gadael troli mewn man cyhoeddus yn lle'i ddychwelyd i'r archfarchnad yn cael ei ddosbarthu fel tipio anghyfreithlon?

Nid yn unig mae trolïau'n edrych yn ofnadwy ar ôl cael eu gadael, fe allant achosi llifogydd ac anafiadau i drigolion, yn dibynnu lle cânt eu gadael. Gall pobl sy'n eu gadael orfod talu dirwy o £75 hefyd!

Er mwyn tynnu sylw at effeithiau'r broblem, mae tair o ysgolion Wrecsam wedi bod yn cystadlu ar ddylunio posteri, ac roedd enillydd o bob ysgol. Roedd categori hefyd ar gyfer cymuned Parc Caia. Yr enillwyr oedd Phoebe Hughes o Ysgol y Santes Anne, Megan Louise Brooks o Ysgol Gwenfro, Emily Richards o Ysgol Hafod-y-wern, a Jenny Bristow oedd yr enillydd yn y Categori Cymuned.

Felly, cofiwch, os ydych yn meddwl am ddod â'ch siopa adref yn y troli, oni bai eich bod yn mynd ag ef yn ôl i'r archfarchnad, gallech fod yn ychwanegu dirwy o £75 ar gost eich bil bwyd!

Uchod: Cynnig buddugol Phoebe Hughes
I'r dde: Y beirniaid wrthi'n dewis buddugwyr

EIN BLAENORIAETH!

Yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf bydd ailwampio tair o ysgolion Wrecsam yn parhau.

Mae ysgolion uwchradd Maelor, Darland a Bryn Alun eisoes wedi elwa ar rywfaint o waith adnewyddu gan gynnwys adnewyddu toeau fflat a gweddnewid toiledau, a bydd rhagor o waith ailwampio ac adeiladu'n parhau yn y flwyddyn newydd.

Bydd gan Ysgol Uwchradd Darland, Yr Orsedd a Bryn Alun, Gwersyllt adeiladau deulawr ar gyfer gwyddoniaeth a chyfleusterau TG newydd sbon a bydd hen labordai Bryn Alun yn cael eu hailwampio hefyd. Bydd gwaith yn dechrau hefyd yn Ysgol Maelor, Llannerch Banna ar adlunio'r llyfrgell ac adeiladu neuadd chwaraeon newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts, yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc: 'Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i wella safonau adeiladu ein hysgolion i sicrhau bod plant a staff yn gallu dysgu ac addysgu mewn amgylchedd fydd yn cael y gorau o'r ddau. Ers 1996, mae'r Cyngor wedi gwario dros £74 miliwn ar wella adeiladau ysgol a byddwn yn dal i glustnodi arian er mwyn gallu gwneud gwaith arall.'

Croesawu wyneb newydd

Mae Menter Iaith Maelor, Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Wrecsam wedi cydweithio ers llawer blwyddyn ac maent bellach wedi dechrau cydgyllido Swyddog Ieuenctid i ddatblygu'r Gymraeg yn Wrecsam.

Penodwyd Sara Mair Jones i'r swydd ac mae wedi bod yn brysur yn trefnu hwyl a phrosiectau cyffrous ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys theatrau ieuenctid, tripiau undydd, chwaraeon a chlybiau gwyliau.

Bydd y prosiectau y mae'n gweithio arnynt yn canolbwyntio ar roi cyfle i bobl ifanc siarad Cymraeg mewn amgylchedd cymdeithasol, gan wneud defnyddio Cymraeg yn beth arferol. Ei nod yw cynyddu hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith.


Sara Mair Jones, Swyddog Ieuenctid newydd Wrecsam ar gyfer datblygu'r Gymraeg

Wrth dderbyn y swydd, meddai Sara, 'Mae'n wych gallu dychwelyd i'm rhanbarth cartref ar ôl amser i ffwrdd yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd ac, yn fwy diweddar, yn gweithio fel hyfforddwr gweithgareddau yng Nglan Llyn, Canolfan Awyr Agored yr Urdd. Fel un o gyn-ddisgyblion Ysgol Morgan Llwyd, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio i ddatblygu'r Gymraeg o fewn cymdeithas pobl ifanc. Mae hefyd yn gyfle personol i mi adeiladu ar y profiadau a gefais yn tyfu yn y cylch, trwy gynnig cyfleoedd a phrofiadau newydd i blant a phobl ifanc yn Wrecsam trwy gyfrwng y Gymraeg.'

DARLUN O WRECSAM

Y gwanwyn hwn bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Cyngor Wrecsam ar gael ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Bydd y CDLI yn amlinellu sut fydd tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anghenion y Fwrdeistref Sirol hyd at 2021. Cofiwch wylio am ragor o wybodaeth oherwydd y bydd cyhoeddusrwydd helaeth pan fydd y CDLI yn barod, a bydd trefniadau i bobl wneud sylwadau arno.

Os hoffech gael eich hysbysu ynghylch datblygiad y CDLI, anfonwch eich manylion cysylltu i: Polisi Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR neu e-bostio planning_policy@wrecsam.gov.uk.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN ÔL YN WRECSAM

Mae'r pwyllgorau trefnu'n bodoli ac mae'r paratoadau ymhell ar y ffordd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Awst 2011, fydd yn dychwelyd i Wrecsam ar ôl mwy na 30 mlynedd.

Bydd dychweliad yr Eisteddfod Genedlaethol i Wrecsam yn gryn hwb i'r cylch gan ddenu rhyw 160,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Drwy'r blynyddoedd mae wedi bod yn un o wyliau mwyaf y byd ac mae'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r Eisteddfod hefyd yn fan cychwyn gwych i rai o berfformwyr mwyaf talentog Cymru – wyddech chi fod Bryn Terfel yn un o enillwyr yr Eisteddfod?

Fel y bydd digwyddiadau'n cael eu cadarnhau byddwch yn cael clywed gennym. Felly, cofiwch wylio am newyddion ynghylch Eisteddfod Wrecsam.

MATERION CYLLIDO

Mae'r gwaith o bennu cyllideb 2010/11 wedi dechrau, ac fel o'r blaen, mae gennych gyfle i benderfynu sut bydd cyllideb y cyngor yn cael ei gwario.

Er mwyn dweud eich dweud, ewch i www.wrecsam.gov.uk neu gallwch gael copi papur o unrhyw un o ddesgiau derbynfa'r cyngor.

Y dyddiad cau ar gyfer eich sylwadau yw 31 Rhagfyr, felly ewch ati a gwnewch yn siŵr fod eich llais yn cael ei glywed!



Cip yn ôl ar yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf yn Wrecsam dros 30 mlynedd yn ôl



LLE I'CH PLENTYN CHI MEWN DOSBARTH MEITHRIN

A fydd eich plant yn cael eu pen-blwydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst 2010?

Os byddant, mae ganddynt hawl i fynychu dosbarth meithrin mewn ysgol feithrin, fabanod neu gynradd yn y Fwrdeistref Sirol o fis Medi 2010 ymlaen.

O 5 Ionawr 2010 ymlaen, bydd gwybodaeth a ffurflen dderbyn ar gael mewn ysgolion meithrin, babanod neu gynradd.

Dychwelwch y ffurflenni i'r ysgol a ddewiswch cyn 23 Chwefror 2010.

MYND I'R AFAEL AG YFED DAN OED

Tra bo'r rhan fwyaf ohonom yn mwynhau diod ddiniwed i ddathlu'r Gwyliau, i lawer o bobl ifanc mae yfed gormod o alcohol wedi dod yn weithgaredd rheolaidd a niweidiol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Cyngor Wrecsam a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn cynyddu eu gorfodaeth i roi terfyn ar werthu alcohol i bobl dan oed ac mae eu gwaith yn parhau eleni.

Un ffordd sydd ganddynt o ddelio â'r broblem yw prawf-brynu. Mae hyn yn golygu bod gwirfoddolwyr dan oed yn mynd at staff mewn siopau trwyddedig i geisio prynu alcohol. Mae hyn yn gweithredu fel ataliad i fanwerthwyr a'u staff sy'n wynebu dirwyon penodedig neu erlyniad os byddant yn gwerthu i bobl dan 18 oed. Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae'r gwerthiant wedi lleihau o un ymhob 6 cais 1 mewn 20.

Mae yfed dan oed yn broblem ddifrifol ac, yn y byrdymor, mae pobl ifanc mewn perygl o gael gwenwyn alcohol (efallai'n arwain at fynd yn anymwybodol a hyd yn oed farwolaeth) a pherygl rhywiol (sy'n gallu dod â beichiogrwydd dieisiau neu STD). Yn y tymor hwy mae'r peryglon yn cynnwys mynd yn gaeth i'r ddiod, gwneud drwg i'r iau, ac iselder a phroblemau'r meddwl.

Fel rhiant, ydych chi'n barod i fentro iechyd a dyfodol hirdymor eich plentyn trwy gymryd arnoch beidio â gweld? Fel rhieni cyfrifol mae'n bwysig gwybod ble mae eich plant, beth maent yn ei wneud a gyda phwy, a chwilio am arwyddion bod gan eich plant broblem gydag alcohol – cur pen, penysgafnder neu syrthio. Cofiwch siarad â'ch plant ynghylch y peryglon a gwrando arnynt os byddant yn codi'r mater a gwrthod prynu alcohol iddynt hwy neu eu ffrindiau bob amser.

Os hoffech gael help i ddelio ag yfed dan oed, gall y cysylltiadau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Eich meddyg teulu
- Young Addiction – 0800 0196 197 www.youngaddiction.org.uk
- Parentline Plus – 0808 800 2222 www.parentlineplus.org.uk
- FRANK 0800 776 600
- Uwch-swyddog Diogelwch Cymunedol Cyngor Wrecsam – 01978 317024

HWB ARIANNOL I WASANAETHAU TEULUOL

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i Wrecsam arloesi cynllun newydd i ddarparu gwasanaethau i'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref Sirol.

Wrecsam yw un o dri awdurdod lleol yng Nghymru i gael arian dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu Tîm Cymorth Cyfun i Deuluoedd (IFST) fydd yn tynnu gwybodaeth arbenigol a sgiliau amrywiaeth o asiantaethau ynghyd (fel gweithwyr proffesiynol camddefnyddio sylweddau, gweithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd ac ymwelwyr iechyd) i ddarparu gwasanaeth gwell.

Prif nod y cynllun newydd yw atal problemau rhag cynyddu, trwy gefnogaeth ac ymyriad cynnar. Yn Wrecsam, bydd IFST yn gweithio gyda 100 o deuluoedd y flwyddyn lle bo'r brif broblem yn blentyn neu rywun ifanc mewn perygl neu mewn angen oherwydd bod y rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Bydd Wrecsam yn cael hyd at £1.8 miliwn i wneud hyn.

Dywedodd Terry Garner, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Wrecsam: 'Mae gweithio ar y cyd ar draws amrywiaeth o asiantaethau a gwyddorau proffesiynol wedi bod wrth wraidd agwedd Cyngor Wrecsam at gefnogi plant a'u teuluoedd. Mae materion cymhleth yn gofyn bod holl wasanaethau'n gweithio gyda'r teuluoedd hyn er mwyn rhoi cefnogaeth o safon ac mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at helpu llunio ac ysbrydoli ein darpariaeth ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.'

CROESO I

gyswllt y plant

Mae rhan hon cylchgrawn Cyswllt ar gyfer plant sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Rydym eisiau sicrhau mai Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r lle gorau i fynd i'r ysgol ac i gael hwyl a chwarae!

Yn y tudalennau hyn rydym yn rhoi lle amlwg i gyngor ar beth i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio, sut y gallwch goginio bwyd cynnes y gaeaf gyda'n ryseitiau Bws Coginio a chael gwybod llwyth o ffeithiau dwl y 'Dolig!

Byddem yn falch o glywed beth sy'n bwysig i chi. Felly, os oes rhywbeth yr hoffech weld yn y cylchgrawn hwn, ysgrifennwch atom yn Cyswllt y Plant, Stryt y Lampint, Wrecsam LL13 1AR neu e-bostio cyswllt@wrecsam.gov.uk

Q. Beth gewch chi wrth groesi cloch a drewgi?

A. Jingle smells!

DEWCH I CHWARAE

Gwneud lle cuddio, chwarae efo dŵr, gwneud modelau sothach a defnyddio offer – a chofiwch wisgo hen ddillad!

Os yw hyn yn apelio atoch, cofiwch sicrhau eich bod yn mynd i un o'r cynlluniau chwarae sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn Wrecsam – byddant yn ffordd wych o dreulio'ch hanner tymor Chwefror! Edrychwch ar y rhestr isod i weld ble maent. Os ydych yn ffansïo mynd, gofynnwch i'ch rhieni ffonio'r Tîm Datblygu Chwarae ar 01978 340740, neu e-bostio play@wrecsam.gov.uk, i gael amseroedd a mannau cyfarfod.

Parc Acton
Ar gyfer 5 – 15 oed
(os ydych yn 5-7 oed cofiwch ddod â rhiant efo chi)

Bwlch-gwyn
Ar gyfer 8 – 16 oed

Bryn-teg
Ar gyfer 8 – 16 oed

Llai
Ar gyfer 8 – 15 oed

Gwersyllt
Ar gyfer 5 – 15 oed
(os ydych yn 5-7 oed cofiwch ddod â rhiant efo chi)

Offa
Ar gyfer 8 – 15 oed

Plas Madoc
Ar gyfer 5 – 15 oed
(os ydych yn 5-7 oed cofiwch ddod â rhiant efo chi)

Rhos a Johnstown
Ar gyfer 5 – 15 oed

Parc Caia
Ar gyfer 5 – 16 oed

Penycae
Ar gyfer 8 – 15 oed

C. Beth sy'n digwydd os nad ydy Siôn Corn yn hoffi Mins Peis?

A. Mins Peis hapus

Pentwr ar eich plât!

Pan fyddwch yn mynd yn ôl i'r ysgol byddwch yn edrych ymlaen at amser cinio!

Bydd llawer o ddewis bob dydd, gydag un o ddau wahanol bryd a dewis o reis, tatws neu basta i fynd efo fo. Byddwch hefyd yn cael dewis rhwng pwdin, ffrwythau, iogwrt neu gaws a bisgedi wedyn.

Mae'r fwydlen newydd yn golygu y byddwch yn gallu bwyta dau o'ch 5-y-dydd hollbwysig tra'r ydych yn yr ysgol!

Y plant yn aros i gael eu cinio blasus

PAWB AT Y BWRDD!

Yn y rhifyn diwethaf roeddem yn sôn am 'fws coginio' Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn dangos i chi sut i wneud rhai ryseitiau gwych. Nawr ei bod yn nosi'n gynt, roeddem yn meddwl y byddem yn dangos i chi sut i wneud cynheswr gaeaf – cawl llysiau! (Cofiwch gael oedolyn i'ch helpu!)

Cawl llysiau'r cynhaeaf

Mae'r rysáit hon yn gwneud digon i 4 – 6 o bobl.

ELFENNAU

- 1 taten ganolig – wedi'i phlicio a'i thorri'n giwbiau bach
- 2 genhinen – wedi'u tocio, eu golchi a'u sleisio'n denau
- 1 nionyn canolig – wedi'i blicio a'i dorri'n fân
- 2 courgette wedi'u sleisio • Pupur du mâl • 750ml o ddŵr
- 50gm o bys rhew • 1 llond llwy bwdin o bowdwr cawl
- 1 tun 230gm o domatos mâl

OFFER

•cymysgwr • gogr • sosban fawr gyda chaead • jwg mesur • llwy bren • cyllell lysiau • bwrdd torri • pliciwr tatws • agorwr tuniau • llwy dyllog • lletwad

SUT I'W WNEUD

1. Rhowch yr holl lysiau, heblaw'r tomatos tun, yn y badell gyda'r dŵr a'r powdwr cawl.
2. Berwch y cymysgedd ac yna'i ostwng i fudferwi. Rhowch y caead arno a'i goginio am ryw 20 munud nes bydd yr holl lysiau'n frau.
3. Rhowch y cymysgwr ar y cownter. Gyda llwy dyllog, tynnwch y llysiau o'r badell a'u rhoi yn y cymysgwr. Cadwch yr hylif yn mudferwi.
4. Ychwanegwch y pys a'r tomatos tun. Rhowch y caead ar y cymysgwr a chymysgu'r cawl yn stwnsh llyfn.
5. Rhowch y stwnsh mewn padell lân ac ychwanegu'r hylif poeth. Twymwch nes bydd bron yn berwi.
6. Tywalltwch i ddysglau gweini. Gadewch iddo oeri ychydig a'i weini gyda bara crystiog cynnes.

FFEITHIAU'R NADOLIG!

• Dros 160 mlynedd yn ôl, dyfeisiodd Thomas Smith y Clecar 'Dolig. Roedd wedi bod yn gwerthu melysion, ond nid oedd neb yn eu prynu. Daliodd ati i ddefnyddio'r papur lapio gloyw a rhoddodd anrheg ynddynt. Yna ychwanegodd jôc a'r glec!

• Mae pobl wedi bod yn anfon cardiau Nadolig ers 166 o flynyddoedd! Yn wreiddiol roeddent yn costio swllt i brynu a cheiniog i bostio (hynny yw 5½c i gyd).

•Yn y 1600au, byddai chwythwyr gwydr yn yr Almaen yn cael cystadlaethau i weld pwy allai chwythu'r bêl wydr fwyaf. Byddai eu gwragedd yn eu gwerthu mewn marchnadoedd lleol. Yn y 1890au diweddar dechreuodd y peli Nadolig hyn ddod yn boblogaidd ledled y byd.

Q. Beth sy'n curo'i frest ac yn swingio o deisen Nadolig i deisen Nadolig?

A. Tarzipan!

CYFLOGWYD CHI – 17 OHONOCH!

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn talu am raglen hyfforddi rhai 16-19 oed am dair blynedd, sy'n rhoi cyfle iddynt gael profiad o arferion gwaith a chael Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC).

Eleni gwnaeth 17 o ymgeiswyr eu ffordd drwy'r proses ddewis ar ôl i adran Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu'r Cyngor roi prawf arnynt. Roedd y broses yn cynnwys profion llythrennedd a rhifedd, ymatebion ysgrifenedig i senarios cwsmeriaid amrywiol, a gwaith grŵp dan wyliadwriaeth a chyfweliad ffurfiol.

Dywedodd Kate Edwards, un o ymgeiswyr llwyddiannus eleni: 'Soniodd ffrind i'r teulu wrthyf am Raglen Prentisiaid Modern Wrecsam. Penderfynais wneud cais gan feddwl y byddwn yn cael sgiliau fyddai'n fy helpu yn y dyfodol ac yn rhoi cyfle i mi gael CGC i ychwanegu at fy mraslun gyrfa.

'Roedd y broses gyfweld yn addysgiadol, tawelwyd ein meddyliau a rhoddodd Swyddogion y Cyngor oedd yn arwain y broses lawer o gefnogaeth. Yna cymrodd y rhai ohonom a lwyddodd i gael lleoliad ran mewn rhaglen sefydlu ddwys am dair wythnos, lle cawsom gyflwyniad i arferion gwaith y Cyngor, cyfle i ddysgu sgiliau newydd, gan gynnwys Prosesu Testun, Gofalu am y Cwsmer a dechrau ar ein CGC.

Katie a'r Prentisiaid Modern eraill yn cyfarfod Maer Wrecsam, Y Cynghorydd Arwel Gwynn Jones

'Erbyn hyn rwyf yn fy adran gyntaf, Adnoddau Dynol, ac yn mwynhau gweithio efo'r tîm yn fawr.'

Roedd safon yr ymgeiswyr yn arbennig o uchel eleni a chynigwyd cyfle i'r rhai aflwyddiannus gael ymateb adeiladol a hyfforddiant personol i wella eu technegau cyfweld at y dyfodol.

Dechreuodd 17 prentis Cyngor Wrecsam ar 14 Medi gydag amserlen hyfforddiant cynhwysfawr oedd yn eu paratoi ar gyfer dechrau gweithio yn eu hadrannau ar 5 Hydref.

Cofiwch wylio'n ddiweddarach yn 2010 pan fyddwn yn cyhoeddi pa rai o'r bobl ifanc hyn fydd yn ennill 'Prentis Modern y Flwyddyn'.

Wrthi'n ailgylchu!

Erbyn hyn byddwch wedi derbyn eich cist newydd ar gyfer gwastraff bwyd a sach las ailgylchu ac mae'r ganolfan ailgylchu newydd sbon ar waith... darllenwch ymlaen i gael gwybod pam yr ydym yn ailgylchu bwyd.

Yng Nghymru caiff 350,000 tunnell o fwyd ei daflu bob blwyddyn ac, yn Wrecsam, mae'n 34% o holl sbwriel cartref. Pan fydd yn mynd i dirlenwi mae'r bwyd yn pydru ac yn rhyddhau llawer o nwy methan, sy'n cyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd. Trwy wahanu gwastraff bwyd, mae holl drigolion Wrecsam yn gwneud eu tipyn i helpu'r amgylchedd.

Bydd biniau du a gwyrdd yn cael eu casglu bob yn ail drwy gydol y flwyddyn.

Os nad oes gennych fin gwyrdd ar hyn o bryd neu unrhyw gwestiynau ynghylch y cynllun ailgylchu gwell, ffoniwch 01978 298989 neu galwch heibio Galw Wrecsam yn 16 Stryt yr Arglwydd.

Felly, sut mae'n gweithio?

Gallwch wagio gwastraff bwyd rhydd i'r bin gwyrdd ynghyd â gwastraff gerddi. Gallwch roi cardbord crychiog gwyn a brown – y math sy'n dod am setiau teledu a chwaraewyr DVD – yn y bin gwyrdd hefyd. Mae holl gardbord arall – fel blychau grawnfwyd – yn ogystal â chardbord crychiog â phrint arno, papurau newydd, cylchgronau, papur swyddfa a Thudalennau Melyn i'w roi yn y sach las, sy'n disodli'r bag gwyrdd.

Crynodeb o Gynllun y Cyngor 2009/10

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyflenwi gwasanaethau i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ymweld â hi. Mae ein gwasanaethau'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a gallwch ddod i gysylltiad â'n gwasanaethau heb sylweddoli hynny.

Enghreifftiau o'r gwasanaethau a ddarparwn yw cadw'r strydoedd yn lân a thaclus, casglu gwastraff o gartrefi a busnesau, rhoi cefnogaeth a chyngor i fusnesau, mannau chwarae a pharciau gwledig, ysgolion, llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid, canolfannau hamdden, cymorth gofal cymdeithasol i bobl gan gynnwys yr oedrannus a phlant, casglu treth y cyngor a thalu budd-daliadau tai, tai'r cyngor, gwasanaethau cofrestru, rhoi cyngor cynllunio a gorfodi'r rheolau, meysydd parcio, cynnal ffyrdd, a gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd.

Bydd yr ychydig dudalennau nesaf yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am flaenoriaethau'r Cyngor, yn dweud wrthych am y gwaith y buom yn ei wneud dros y flwyddyn aeth heibio, ac yn amlinellu beth yw ein blaenoriaethau am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yr hyn y buom yn canolbwyntio arno yn ystod 2008/09

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wneud gwelliannau i amrywiaeth o'i wasanaethau ac, yn arbennig ar saith maes allweddol, sy'n cael eu galw'n Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor. Meysydd yw'r rhain sy'n bwysig iawn i bobl Wrecsam ac y gweithiodd staff y Cyngor a Chynghorwyr lleol yn galed i'w gwella'n sylweddol. Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu lle gwnaethom yn dda gyferbyn â'r blaenoriaethau hyn, a hefyd y pethau sy'n dal i fod angen eu gwella:

Gwella cyrhaeddiad addysgol / sgiliau a lleihau gwaharddiadau

- Dros y pedair blynedd diwethaf mae nifer y disgyblion yn cyflawni pump neu fwy TGAU gradd A* - C wedi gwella o dipyn i beth. Fodd bynnag mae perfformiad yn dal fymryn islaw cyfartaledd Cymru
- Presenoldeb disgyblion yn 2008/09 oedd yr uchaf ond dau yng Nghymru o ran ysgolion uwchradd, a'r uchaf yng Nghymru yn yr ysgolion cynradd
- Daliodd gwaharddiadau parhaol a hyd y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfartaledd i leihau – er bod canran y diwrnodau a gollwyd wedi cynyddu ychydig

Cefnogi pobl hŷn a rhoi amrywiaeth o wasanaethau o safon iddynt

- Cyflwynwyd y gwasanaeth ailalluogi sy'n darparu pecynnau cefnogi dwys i bobl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol ar y gwasanaethau yn y tymor hwy
- Rydym wedi cefnogi mwy o bobl hŷn i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hwy
- Gwellwyd amrywiaeth y wybodaeth sydd ar gael hefyd gydag 87% o ddefnyddwyr gwasanaethau'n dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth oedd o fantais iddynt

Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Gostyngodd digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol bron i bumed ran yn ystod 2008
- Rydym wedi dal i weithio gyda'r heddlu i ddarparu Swyddogion Cefnogi Cymunedau yr Heddlu mewn wardiau ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol
- Darparwyd gweithgareddau dargyfeirio ar gyfer pobl ifanc oedd mewn perygl o ymddwyn yn wrthgymdeithasol, neu'n gwneud hynny eisoes

Cynyddu ailgylchu a lleihau tirlenwi

- Mae nifer yr aelwydydd sy'n cyfranogi yn y cynllun ailgylchu ochr y ffordd wedi cynyddu i dros 80%
- Ers 1996 rydym wedi lleihau'r gwastraff trefol sy'n mynd i dirlenwi o 97% i 62.6%
- Daethom yn agos iawn at ein targed ar faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio, oherwydd ad-drefnu'r cylchoedd casglu. Fodd bynnag roedd y targed hwn yn uchelgeisiol ac fe'i pennwyd yn wreiddiol ar gyfer 2009/10

Cyflawni Strydwedd – creu lle glanach, gwyrddach, mwy diogel a thaclusach i fyw ynddo

- Rydym wedi cyrraedd 94% o'r safonau a gytunwyd ar gyfer y gwasanaeth
- Cymrwyd dros fil o gamau gorfodi i weithredu fel ataliad a lleihau baw cŵn, ysbwriel a thipio anghyfreithlon

Hyrwyddo datblygu a defnyddio tir yn gynaliadwy trwy fod â Chynllun Datblygu Lleol cadarn

- Rydym wedi cyfranogi'n llawn â chymunedau a phartneriaid i sicrhau bod ein cynllun yn adlewyrchu dyheadau cymunedau a blaenoriaethau'r Cyngor – fodd bynnag mae hyn wedi golygu oedi'r drafft ymgynghori
- Gan ddefnyddio ein prosesau rheoli cynllunio rydym wedi sicrhau bod datblygiadau mawr, fel y gwaith oddi ar safle Dôl Eryrod, yn dilyn egwyddorion cynaliadwyedd

Gweithredu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol i sicrhau buddsoddi cynaliadwy yn yr isadeiledd cludiant

- Gwellwyd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am gludiant cyhoeddus mewn safleoedd bysiau a'r orsaf fysiau; ac agorwyd gwasanaeth trenau uniongyrchol rhwng Wrecsam a Llundain
- Mae ein Cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned mewn dwy gymuned bron â'i orffen
- Rydym yn dal i fynd ar ôl mwy o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynnal a datblygu'r isadeiledd cludiant

Ein blaenoriaethau rhwng 2009 a 2012

Yn ystod 2008/09 cynhaliwyd proses gynllunio gadarn i ddatblygu ein cyfeiriad ar wella gwasanaethau'r Cyngor ac i enwi ein blaenoriaethau am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth er mwyn datblygu ein blaenoriaethau gan gynnwys: sylwadau'r cyhoedd, Cynghorwyr, staff a rheolyddion; defnyddio canlyniadau'r ymgynghori helaeth â'r cyhoedd a fu wrth adolygu Strategaeth Gymunedol Wrecsam; gwybodaeth ddemograffig ar anghenion sy'n newid; newidiadau deddfwriaethol; a gwybodaeth yng nghynlluniau partneriaid presennol.

Dywedodd y gwaith hwn wrthym fod angen canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol i newid pethau'n sylweddol dros y tair blynedd nesaf. Enw'r rhain yw Blaenoriaethau'r Cyngor a chânt eu disgrifio isod.

Tai fforddiadwy

Mae tai fforddiadwy ar gyfer pobl nad yw eu hincwm yn galluogi iddynt brynu neu rentu eiddo addas i'w hanghenion ar y farchnad agored – ac maent yn dai gyda chymhorthdal a phris gostyngol ar y farchnad. Mae diffyg tai fforddiadwy ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol ac, felly, bwriad y flaenoriaeth hon yw cynyddu faint o dai fforddiadwy sydd ar gael dros y tair blynedd nesaf, a chael cynlluniau i gynorthwyo diwallu'r anghenion cyfnod hwy.

Er mwyn cyflawni hyn, yn ystod 2009/10 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu ein cynigion am Grant Tai Cymdeithasol er mwyn adeiladu mwy o dai
- Nodi ac asesu safleoedd addas i godi tai fforddiadwy
- Helpu dod â mwy o gartrefi gwag o'r sector preifat yn ôl i'w defnyddio eto
- Datblygu dewisiadau ar gyfer partneriaeth strategol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a/neu ddatblygwyr i gael mwy o werth am yr arian.

Gwell addysg a sgiliau ar gyfer cyflogaeth

Diben y flaenoriaeth hon at ei gilydd yw cefnogi pobl i ddatblygu'r addysg a sgiliau sydd arnynt eu hangen i gael cyflogaeth ac, fel y cyfryw, byddwn yn gweithio tuag at leihau nifer y bobl o oed gwaith sy'n economaidd anweithgar. Am y tro, byddwn yn canolbwyntio ar symud tuag at y nod hwn trwy leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Er mwyn cyflawni hyn, yn ystod 2009/10 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Nodi grŵp o bobl pwy a allai ddod yn economaidd anweithgar
- Cynnig cefnogaeth ac ymyriad i'r bobl ifanc a'u teuluoedd
- Gwneud amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni

Nod y flaenoriaeth hon at ei gilydd yw gostwng allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni, defnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd a defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo modd ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Wrth wneud hyn, bydd nifer o egwyddorion yn sail i'r gwaith hwn, gan gynnwys dylanwadu'n gadarnhaol ar ein gweithwyr, partneriaid a chymunedau; rheoli costau ynni cynyddol yn effeithiol; ac arwain arferion da yng Nghymru yn hyn o beth.

Er mwyn cyflawni hyn, yn ystod 2009/10 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Mesur man cychwyn ein hôl troed carbon ar draws ein holl weithgareddau
- Llunio cynllun rheoli carbon ar gyfer yr awdurdod
- Ymestyn a hyrwyddo rhoi cyngor ar ddefnyddio ynni'n effeithlon i'n tenantiaid a thrigolion
- Gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi un o gymunedau Wrecsam ddod yn 'gymuned garbon isel' trwy weithredu i leihau ei hôl troed carbon.

Blaenoriaethau gwella

Yn ogystal, mae rhai meysydd ychwanegol lle'r ydym eisiau gwella. Meysydd yw'r rhain lle mae cynlluniau'n bodoli eisoes i beri gwelliannau, ond y byddwn yn canolbwyntio mwy o sylw arnynt. Enw'r rhain yw ein Blaenoriaethau Gwella:

- **Bwyta'n iach a phobl yn fwy egnïol**
- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac amgyffred o drosedd**
- **Cynorthwyo pobl hŷn fyw'n annibynnol**
- **Lleihau gwastraff ac ailgylchu i'r eithaf**
- **Mynediad at wasanaethau a gwrando ar y cyhoedd a'u cael i ddylanwadu ar wasanaethau**
- **Hybu cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog a hyrwyddo diwylliant Cymreig**

Rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich Cyngor yn gwneud a'n cynlluniau at y dyfodol yn y dogfennau canlynol:

- Diffinio ein Cyfeiriad 2009 i 2012 – amlinellu gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor
- Gosod ein Targedau – manylu ar y targedau a osododd y Cyngor i wella ei wasanaethau
- Canolbwyntio ar ein Perfformiad –amlinellu sut mae'r Cyngor wedi gwneud gyferbyn â'r targedau a osododd

Mae'r dogfennau hyn i'w cael ar y Rhyngrwyd yn www.wrecsam.gov.uk neu drwy gysylltu â'r Uned Perfformiad a Gwelliant ar 01978 292271 neu statistics@wrecsam.gov.uk.